| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **15 Rhagfyr, 2011** |
| **TEITL** | **Adolygu'r Dosbarthau Pleidleisio a'r Mannau Pleidleisio** |
| **PWRPAS** | **Cynnig newidiadau i'r dosbarthau a mannau pleidleisio yn dilyn adolygiad** |
| **AWDUR** | **Dilys Phillips,<br>Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Stephen Churchman,<br>Uwch Arweinydd Adnoddau.** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cyflwyno'r newidiadau a restrir yn yr atodlen yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar yr adolygiad o'r dosbarthau pleidleisio a'r mannau pleidleisio.

## 2. Y RHESWM PAM Y CEISIR PENDERFYNIAD

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol rannu'u hardal i ddosbarthau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol ac i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer y dosbarthau pleidleisio hyn.

Dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006, mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu pob dosbarth bleidleisio a mannau pleidleisio o leiaf bob pedair blynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn 2007.

## 3. ADOLYGIAD 2011

Cychwynnwyd yr adolygiad yn ystod mis Medi gan adrodd i'r pwyllgorau ardal ar y trefniadau adolygu. Cyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus o'r adolygiad ynghyd â manylion am y dosbarthau a gorsafoedd pleidleisio presennol ac anfonwyd copïau i bartïon allai fod â diddordeb, megis cynghorwyr, cynghorau tref a chymuned, pleidiau gwleidyddol a budd-ddeiliaid eraill.

## 4. YSTYRIED YR YMATEBION

Cyflwynwyd adroddiadau i'r tri phwyllgor ardal yn cynnwys y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac ymateb y Swyddog Canlyniadau

iddynt a lle bo hynny'n berthnasol, argymhellion i newid y drefn bresennol i'w ystyried.

Cyflwynwyd hefyd sylwadau'r Swyddog Canlyniadau ar nifer o faterion a oedd yn credu fod angen sylw.

Fel rhan o'r adolygiad, er mwyn sicrhau gwerth am arian ac i sicrhau y gwneir defnydd gorau o adnoddau, edrychwyd ar y mannau pleidleisio hynny hefo llai na 150 o bleidleiswyr ar y gofrestr ynddynt , o fewn pellter teithio oddeutu 3 milltir i'r oraf bleidleisio agosaf a hefo dim cymhlethdodau etholaethol yn deillio, a beth fyddai'r oblygiadau o'u diddymu.

Anfonwyd unrhyw gynigion pendant am newid at yr aelod lleol a'r cyngor cymuned ac adroddwyd eu hymateb i'r pwyllgor ardal perthnasol.

## 5. GOBLYGIADAU COSTAU

Wrth gau gorsafoedd mae yna arbedion posib i'w gwneud drwy beidio cyflogi staff i weithio yn yr orsaf ar y diwrnod, costau teithio a hyfforddiant staff a chost llogi adeilad. Amcangyfrifir y bod y gost ynghlwm a defnyddio adeilad fel gorsaf bleidleisio oddeutu £500 yr etholiad.

## 6. ARGYMHELLION

**6.1 Ardal Meirionnydd.** Cyfarfu Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 14 Tachwedd ac mae eu argymhellion wedi eu hatodi yn Atodlen 1. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion.

**6.2 Ardaloedd Arfon a Dwyfor.** Nid oedd pwyllgorau ardal Arfon a Dwyfor wedi cyfarfod i drafod yr argymhellion ar adeg dosbarthu rhaglen y Cyngor. Mae argymhellion y Swyddog Canlyniadau, fydd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau ardal, i'w cael yn Atodlen 2. Bydd argymhellion y pwyllgorau ardal ar gael i'r aelodau cyn i'r Cyngor gyfarfod a gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion y pwyllgorau ardal.

**Atodlen 1**

**Argymhellion Pwyllgor Ardal Merionnydd**

Cadw cofrestr AG2 (Bontddu) ar wahan a chyfuno E1, E3 ac E4 (Abermaw).

Cau gorsaf bleidleisio Oakeley Arms, Maentwrog, a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Gellilydan

Cau gorsaf bleidleisio Sarnau a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Llandderfel

Cau gorsaf bleidleisio Bontddu a symud y gofrestr i orsaf bleidleisio Llanelltyd

**Atodlen 2**

**Argymhellion y Swyddog Canlyniadau i Bwyllgor Ardal Arfon**
(cyflwynir argymhellion y pwyllgor ardal i'r Cyngor wedi iddo gyfarfod)

| Manylion | Dosbarth(au) Pleidleisio / | Gorsaf Bleidleisio | Argymelliad | Canlyniadau Ymarferol |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Cymuned Llanberis**<br><br>Ward Nant Peris<br><br>Rhanbarth Etholiadol Llanberis | B1B – Llanberis – Nant Peris B | Festri Capel Rehoboth, Nant Peris | Gan mai ond 94 o etholwyr sydd ar y gofrestr, cau yr orsaf a symud y gofrestr i Llanberis | **Oddeutu 2.5 milltir o deithio i bleidleisio yn Llanberis** |

**Argymhellion y Swyddog Canlyniadau i Bwyllgor Ardal Dwyfor**
(cyflwynir argymhellion y pwyllgor ardal i'r Cyngor wedi iddo gyfarfod)

| Manylion | Dosbarth(au) Pleidleisio | Gorsaf Bleidleisio | Argymelliad | Canlyniadau Ymarferol |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Cymuned Dolbenmaen**<br><br>Ward Bryncir<br><br>Rhanbarth Etholiadol Dolbenmaen | CB6 - Dolbenmaen – Bryncir | Festri Capel Soar, Bryncir (86 o etholwyr) | Gan mai ond 86 o etholwyr sydd ar y gofrestr, cau yr orsaf a symud y gofrestr i Garn Dolbenmaen | **Bydd yn rhaid i drigolion Bryncir deithio oddeutu 2.5 milltir i bleidleisio yng Ngarn Dolbenmaen** |
| **Cyngor Cymuned Dolbenmaen**<br><br>Ward Prenteg<br><br>Rhanbarth Etholiadol Porthmadog | CD6 - Dolbenmaen – Prenteg | Canolfan Prenteg (93 o etholwyr) | Gan mai ond 93 o etholwyr sydd ar y gofrestr, cau yr orsaf a symud y gofrestr i Dremadog | **Bydd yn rhaid i drigolion Bryncir deithio oddeutu 2 filltir i bleidleisio i Dremadog** |
| **Cyngor Cymuned Llanaelhaearn**<br>Ward Pistyll<br><br>Rhanbarth Etholiadol Llanaelhaearn | HB6 – Pistyll | Capel Bethania Pistyll (120 o etholwyr) | Gan mai ond 120 o etholwyr sydd ar y gofrestr, cau yr orsaf a symud y gofrestr i Llithfaen | **Bydd yn rhaid i drigolion Pistyll deithio oddeutu 2.5 milltir i bleidleisio i Llithfaen** |